# Cylch Gorchwyl

Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Gogledd Cymru

23 Ionawr, 2020

## CEFNDIR

Cytunwyd y bydd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddiffinio a datblygu **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol**. Bydd y fframwaith yn amlinellu sut bydd llywodraethau a phartneriaid yn cydweithio i yrru twf economaidd ar gyfer y rhanbarth sy'n cynnwys cyflawni uchelgeisiau Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Cytunwyd yn y Grŵp Swyddogion Gweithredol, lle'r oedd Swyddog Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn bresennol, y bydd bob parti yn gweithio gyda'i gilydd i:

- fireinio'r Weledigaeth Twf gyfredol ar gyfer y Gogledd; ystyried beth sydd wedi newid ers iddi gael ei chreu yn 2016 a beth yw ein huchelgeisiau ar gyfer y Gogledd erbyn 2035;
- cyd-ddylunio a chytuno ar y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol;
- gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth ar raglen gyfunol o waith i gyflawni'r uchod, yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid allweddol eraill (nad ydynt wedi bod ynghlwm â'r gwaith hyd yma, o bosib).

## PWRPAS

Mae'r papur hwn yn nodi'r Cylch Gorchwyl ar sut bydd **Llywodraeth Cymru** a **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** ac, fel sydd angen, partneriaid eraill, yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu ac yna chyflawni yn erbyn un Fframwaith Economaidd Rhanbarthol cyffredin i Ogledd Cymru.

Byddwn yn cyd-ddatblygu Fframwaith Economaidd rhanbarthol a fydd yn:

- cyd-fynd â naratif ar y cyd ar gyfer y Gogledd, ac yn ei weithredu, a fydd yn pwysleisio ac yn atgyfnerthu cyfoeth y cyfleoedd, ein diwylliant, ein tirwedd a'n hiaith - cyfeirir at hwn fel **Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru.**
- Darlunio'r cynllun gweithredu economaidd cyd-gysylltiedig sy'n cyflawni'r **Weledigaeth Twf** ar y cyd i'r rhanbarth.
- Gosod y dull gweithredu a'r cynllun i gyflawni'r **Cynllun Twf** y cytunwyd ar Benawdau'r Telerau ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2019, gan sicrhau ein bod yn cyd-fynd â chyfleoedd a heriau ehangach e.e. yr economi sylfaenol, ardaloedd gwledig ac ati.
- Ein huchelgais yw y bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn rhoi un farn gydlynol am yr anghenion a'r cyfleoedd yn y Gogledd, a fydd yn medru dylanwadu ar bolisïau ac ymyraethau cenedlaethol yn uniongyrchol, a'u hysbysu, megis y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a Chenedlaethol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y Strategaeth Trafnidiaeth cenedlaethol sydd ar ddod, Bargeinion Sector, *Strength in Places*, cronfeydd herio ac ati.

Mae'r ddogfen hon yn gosod yr egwyddorion arweiniol a chynllun lefel uchel ar gyfer sut byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r Cynllun Twf ac, yn bwysig, yr uchelgeisiau economaidd ar y cyd ehangach ar gyfer y rhanbarth; cefnogi economi cynaliadwy, gwydn a chynhwysol sy'n tyfu ar gyfer y Gogledd.

## EGWYDDORION ARWEINIOL

Mae'r ffordd yr ydym yn gweithio wedi'i thanategu gan y **saith Nod Llesiant ar gyfer Cymru** ac yn unol â'r **egwyddor datblygu cynaliadwy** .

- Rydym yn cydnabod nad yw'r blaenoriaethau ar gyfer y Gogledd yn israddol i rai'r Genedl. Mae'r dull hwn yn parchu cyfrifolaeth ac atebolrwydd democrataidd ar bob lefel a bydd y partneriaid yn gweithio ar y cyd i fynd i'r afael ag unrhyw flaenoriaeth sy'n gwrthdaro wrth iddynt godi.

DRAFT

- Caiff mentrau eu cyd-ddylunio drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a chyda phartneriaid cymdeithasol.
- Rydym yn rhannu un weledigaeth ar gyfer y Gogledd ac yn mynegi hyn yn barhaus drwy ein naratif.
- Rydym yn annog diwylliant o herio cadarn, ar y cyd a chefnogaeth gadarn i yrru canlyniadau rhagorol i'r Gogledd ac rydym yn mesur ac yn rhannu llwyddiant ar y cyd.
- Mae ein cynlluniau yn rhai uchelgeisiol a hirdymor. Maent yn ystyried heriau allweddol a fydd yn effeithio ar y rhanbarth e.e. di-garbon net, Deallusrwydd Artiffisial, Diwydiant 4.0, demograffeg, Brexit a'r cyd-destun gwleidyddol.
- Byddwn yn gweithio yn unol â blaenoriaethau ar lefel leol, isranbarthol, rhanbarthol, cenedlaethol a Phrydeinig.
- Caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw ar draws adrannau a llywodraethau ynghylch prosiectau neu fuddsoddiadau a fydd yn effeithio ar y rhanbarth ac yn ei gryfhau, ar draws sawl portffolio Gweinidogol a pholisi, ond sydd ar wahân i'r sgôp o weithio gyda'n gilydd. (h.y. Buddsoddi mewn Teithio Llesol, rhaglen ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain).
- Byddwn yn ceisio sicrhau bod twf yn sbarduno datblygiad cymdeithasol sy'n gynhwysol ac a gaiff ei ledaenu ar draws ein cymunedau i sicrhau cyfiawnder a chydraddoldeb.
- Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn mynd ati i geisio arweinyddiaeth allanol i herio/dilysu ein safle meincnod a'n huchelgais a'n gweledigaeth.
- Byddwn yn gweithio ar y cyd i ddylanwadu ar sut mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, partneriaid rhanbarthol a lleol yn cyflawni yn y rhanbarth, gan sicrhau bod llais y Gogledd yn cael ei glywed a'i adlewyrchu yn ein holl weithgareddau.
- Byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â chymunedau'r Gogledd i hyrwyddo a'u cynnwys nhw wrth i ni wneud cynnydd i gyflawni rhanbarth blaengar, gwydn a chysylltiedig.

## RHAGLEN WAITH A BLAENORIAETHAU

Mae'r cynllun lefel uchel yn hysbysu'r blaengynllun manwl a reolir gan y Swyddfa Rhaglen:

| **Cynllun lefel uchel** | | | |
|---|---|---|---|
| Categori | Gweithred | Amserlen | Arweinydd |
| **Gwaith Datblygu ar y Cyd** | Datblygu a chytuno ar raglen fanwl o ymgysylltu a gweithgareddau | Maw-Ebrill | Swyddfa Rhaglen a Swyddfa'r Prif Swyddog Rhanbarthol |
| | Seminar Datblygu Rhanbarthol - deall ac arfarnu'r dystiolaeth a fydd yn hysbysu'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol | Mai | |
| | Gweithdai Dyfodol - LlC a'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'i gilydd yn y Gogledd i ddatblygu gweledigaeth/dull gweithredu strategol | Mai-Mehefin | |
| | Seminar Datblygu Rhanbarthol i lansio'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol | Rhag | |
| **Gweledigaeth Twf** | Paratoi adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais ar y Weledigaeth Twf ddiwygiedig | Mawrth | Y Bwrdd Uchelgais, y Grŵp Gweithredol a Swyddfa'r Prif Swyddog |
| | Y Bwrdd Uchelgais i osod blaenoriaethau a chyfeiriad Twf Economaidd yn y dyfodol drwy'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig | Mai | |
| | Datblygu drafft cyntaf o'r Weledigaeth Twf wedi'i diweddaru | Mai-Mehefin | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Grŵp Swyddogion Gweithredol i adolygu'r Weledigaeth Twf ddrafft | Mehefin | **Rhanbarthol** |
| | Cyflwyno'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth | Gorffennaf | |
| | Cyflwyno'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig i'r chwe Chyngor am gymeradwyaeth | Medi/Hydref | |
| **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol** | Datblygu Cylch Gorchwyl | Diwedd Ionawr | Llyw. Cymru a'r Bwrdd Uchelgais |
| | Datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol drafft | Mehefin-Hydref | |
| | Fframwaith Economaidd Rhanbarthol drafft yn barod i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais / Gweinidog Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru | Tach | |
| **Cynllun Twf** | Hyfforddiant i'r Swyddfa Rhaglen ar y Model Busnes Pum Achos | Ebrill | Swyddfa Rhaglen |
| | Datblygu achosion busnes terfynol | Diwedd Hydref | |
| | Strategaeth a chynllun cyfathrebu | Ebrill | |
| | Creu map darluniadol o'r newidiadau ar gyfer y rhaglen waith | | |
| | Cynnal dadansoddiad, map a chynllun o randdeiliaid | Chwe-Maw | |

DRAFT